



Tystysgrif Sylfaen mewn Cymraeg Ail Iaith: Defnyddio'r Gymraeg

14 Mehefin 2019

Siarad – Taflen y Cyfwelydd

Hyd y prawf: tua 10 munud

Amser paratoi: 15 munud

Mae 4 rhan i'r prawf

1. Cyflwyno pwnc [80]

Ar ôl croesawu'r ymgeisydd a sicrhau bod y peiriant yn recordio, gofynnwch iddo/iddi pa bwnc y mae wedi ei ddewis. Bydd wedi dewis un o'r tri isod.

Naill ai: a. Gwaith

neu: b. Chwaraeon

neu: c. Gwyliau

Pan fydd yr ymgeisydd wedi gorffen siarad (neu os bydd yn methu mynd ymlaen), gofynnwch ddau gwestiwn i'r ymgeisydd ar sail yr hyn y mae eisoes wedi ei ddweud. Ni ddylai Rhan 1 bara mwy na thua 3 munud. Ar ôl gorffen, diolchwch i'r ymgeisydd a dweud eich bod yn mynd i symud ymlaen i'r rhan nesa.

2. Yr ymgeisydd yn ateb cwestiynau [50]

Dwedwch eich bod yn mynd i ofyn pum cwestiwn i'r ymgeisydd. Atgoffwch yr ymgeisydd y dylai ddweud **dau** beth yn ateb i'r cwestiynau, gan ddefnyddio brawddegau.

1. Dwedwch rywbeth am yr ardal lle dych chi'n byw.
Dudwch rywbeth am yr ardal lle dach chi'n byw.

2. Beth ddylech chi'i wneud i wella'ch Cymraeg?
Be' ddylech chi'i wneud i wella'ch Cymraeg?

3. Beth dych chi **ddim** yn hoffi'i wneud, a pham?
Be' dach chi ddim yn hoffi'i wneud, a pham?
4. Dwedwch rywbeth am eich cymdogion.
Dudwch rywbeth am eich cymdogion.
5. Beth fyddwch chi'n ei wneud heno?
Be' fyddwch chi'n ei wneud heno?

3. Trafod tabl

[50]

Diolchwch i'r ymgeisydd a dwedwch eich bod yn symud ymlaen i'r rhan nesaf. Bydd yr ymgeisydd wedi cael amser i edrych ar y tabl gwybodaeth cyflawn yn ystod y cyfnod paratoi. Rhowch y daflen newydd 'Tabl Gwybodaeth' i'r ymgeisydd (yr un tabl, ond gyda bylchau), a gofynnwch i'r ymgeisydd ofyn dau gwestiwn i chi, gan fod rhai pethau ar goll (mewn print trwm yn y tabl isod) ar y daflen hon. Atebwch y cwestiynau mewn brawddegau cryno; does dim rhaid i'r ymgeisydd ysgrifennu'r atebion.

Cyrsiau Cymraeg Haf 2019 Dysgwch sgîl newydd trwy'r Gymraeg yr haf yma! <i>Learn a new skill through the medium of Welsh this summer!</i>					
	Cwrs	Dyddiad	Amser	Pris	Tiwtor
1.	Ffotograffiaeth	1 Awst	12.00-6.00	£10	Linda Evans
2.	Ioga	1 Awst	9.00-12.00	£5	Twm Jones
3.	Karate	1 Awst	1.00-5.00	£5	Twm Jones
4.	Peintio	2 Awst	10.00-5.00	£15	Enfys Jones
5.	Gwneud bara	2 Awst	1.00-4.00	£5	Bob Davies
6.	Dawnsio salsa	2 Awst	6.30-9.30	£3	Alaw Williams

Yna, gofynnwch y cwestiynau isod i'r ymgeisydd. Dylid ei atgoffa i ateb mewn brawddeg lawn.

3. Pa gwrs yw/ydy'r druta?
4. Pa mor hir yw/ydy'r cwrs Ffotograffiaeth?
5. Pam mae Twm Jones yn brysur **iawn** ar y cyntaf o Awst?

4. Ymatebion caeedig

[20]

Diolchwch i'r ymgeisydd a dwedwch eich bod yn symud ymlaen i'r rhan nesaf. Dylech ofyn y 10 cwestiwn / gosodiad canlynol i'r ymgeisydd. Dylech ofyn i'r ymgeisydd ymateb gyda'r gair cywir am 'yes', nid brawddeg, ac nid 'iawn' neu 'siŵr o fod'.

1. Oedd hi'n wyntog ddoe?
Oedd hi'n wyntog ddoe?
2. Dych chi'n byw yn y dre ar hyn o bryd?
Dach chi'n byw yn y dre ar hyn o bryd?
3. Wnaethoch chi'r gwaith cartre ddoe?
Wnaethoch chi'r gwaith cartre ddoe?
4. Doctor dych chi?
Doctor dach chi?
5. Ga'i ddefnyddio'r ffôn, os gwelwch chi'n dda?
Ga'i ddefnyddio'r ffôn, os gwelwch chi'n dda?
6. Oes anifail anwes gyda chi?
Oes gynnoch chi anifail anwes?
7. Fasech chi'n prynu tŷ newydd, tasech chi'n gallu?
Fasech chi'n prynu tŷ newydd, tasech chi'n gallu?
8. Fyddwch chi'n mynd i'r dafarn heno?
Fyddwch chi'n mynd i'r dafarn heno?
9. Mae gormod o bobl yma.
Mae 'na ormod o bobl yma.
10. Mae hi'n oer ofnadwy.
Mae hi'n oer ofnadwy.

Diolchwch i'r ymgeisydd a dweud mai dyna ddiwedd y prawf llafar.